Menter Iaith Sir Caerffili – Swyddog Datblygu Cymunedol

## Manylion Swydd

Swydd Deitl: Swyddog Datblygu Cymunedol

Lleoliad: Swyddfa'r Fenter yn Ystrad Mynach ond fe fydd yn ofynnol i deithio ar draws cymunedau Bwrdeistref Sirol Caerffili. Rydym yn gweithredu system o weithio adref 2 ddiwrnod yr wythnos a 3 diwrnod o'r swyddfa.

Cyflogwr: Menter Iaith Sir Caerffili

Oriau: 37 awr

## Pwrpas y Swydd

I weithio o fewn cymunedau Bwrdeistref Sirol Caerffili er mwyn datblygu a trefnu amrywiaeth o wasanaethau, gweithgareddau a digwyddiadau ar gyfer siaradwyr a dysgwyr y Gymraeg o bob oedran. Fe fydd gofyn i chi datblygu syniadau newydd a datblygu rhaglenni presennol y Fenter ymhellach.

## Prif tasgau'r swydd

- Cydweithio â Phrif Swyddog y Fenter er mwyn hyrwyddo gwaith y Fenter o fewn Sir Gaerffili.
- Trefnu gweithgareddau a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ar gyfer teuluoedd, dysgwyr a thrigolion Sir Gaerffili yn gyffredinol.
- Datblygu defnydd o'r Gymraeg yn lleol trwy gydweithio a busnesau, sefydliadau ac unigolion amrywiol.
- Ymchwilio i bartneriaethau posib er mwyn trefnu gweithgareddau ar y cyd â chyrff eraill.
- Trefnu a chydlynu digwyddiadau cymdeithasol yn annibynnol a chydweithio ag amrywiaeth o gyrff i gynnal digwyddiadau ar y cyd.
- Ymchwilio i brosiectau celfyddydol.
- Ymchwilio i ddiddordebau ac anghenion trigolion y Sir.
- Ymchwilio i ffynonellau cyllid er mwyn ariannu digwyddiadau.
- Cyfrannu at prosesau gwerthuso a monitro'r Fenter.

## Menter Iaith Sir Caerffili – Swyddog Datblygu Cymunedol

- Trefnu a chydlynu Gwyl Haf Ffiliffest a Ffair Nadolig y Fenter.
- Trefnu, datblygu a chydlynu Fforwm o Fudiadau Cymraeg.

**Cyflawni'r Swydd**
Fe fydd y Swyddog yn atebol i Brif Swyddog Menter Iaith yn ogystal â Bwrdd Rheoli'r Fenter.

Fe fydd gofyn i weithio gyda'r nos ac ar benwythnosau ar adegau yn ogystal â theithio i gyfarfodydd, cynadleddau ac i ymweld â mudiadau eraill.

Fe fydd y Swyddog yn ymwybodol o iechyd a diogelwch ei hunain ac eraill ac yn ymrwymo i ddilyn polisïau a gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch y mudiad.

Mae Menter Iaith Sir Caerffili yn gweithredu Polisi Cyfleoedd Cyfartal. Mae'r polisi hwn yn ymwneud a'r bobl y bydd y Swyddog mewn cyswllt ag hwy a'r ffordd y maent yn cyflawni ei gwaith. Mae Menter Iaith yn gweithio gyda nifer o bobl sydd â chyfleoedd cyfyngedig oherwydd eu dewis iaith ac fe fydd dulliau o herio a datrys y sefyllfa hon yn dylanwadu ar y gwaith.

**Y Person sy'n Cyflawni'r Gwaith**

| Manyleb Person | Angenrheidiol neu Dymunol |
|---|---|
| **Profiad** | |
| Profiad o weithio trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. | A |
| Profiadol o ddefnyddio meddalwedd Technoleg Gwybodaeth. | A |
| Profiad o drefnu digwyddiadau neu gwasanaethau | D |
| **Sgiliau a Galluoedd** | |
| Sgiliau llafar ac ysgrifenedig trwy gyfrwng y Gymraeg o safon uchel iawn. | A |
| Y gallu i gynllunio a threfnu prosiectau. | A |
| Y gallu i weithredu yn annibynnol gan ddatblygu syniadau heb arolygaeth sylweddol | A |
| Sgiliau cyfathrebu a chyflwyno da ar lafar ac yn ysgrifenedig. | A |
| Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu o safon uchel a'r gallu i weithio gyda trawsdoriad o bobl. | A |

Menter Iaith Sir Caerffili – Swyddog Datblygu Cymunedol

| Manyleb Person | Angenrheidiol neu Dymunol |
|---|---|
| Sgiliau trefnu o safon uchel. | A |
| Y gallu weithio fel rhan o dîm. | A |
| Profiad o fonitro a gwerthuso prosiectau. | D |
| **Gwybodaeth a Deallusrwydd** | |
| Dealltwriaeth dda o brosesu geiriau, mantolen, bas-data, cyflwyniadau. | A |
| Hyderus wrth ddefnyddio'r we ac ebost. | A |
| Dealltwriaeth o waith y Mentrau Iaith a phartneriaid sy'n ymwneud â'r maes hyrwyddo'r Gymraeg | D |
| **Addysg a Hyfforddiant** | |
| Trwydded Gyrru lawn. | A |
| Parodrwydd i ddilyn unrhyw hyfforddiant perthnasol ac angenrheidiol. | A |
| | |